# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2021** |
| **DYDDIAD** | **22 Gorffennaf 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2021**

**Trosolwg Polisi o'r OS:**

Mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth gaffael (a nodir isod) er mwyn gallu rhoi'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA) ar waith yn y wlad hon o dan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

**Y Cyfreithiau sy'n cael eu diwygio:**

- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (yr Alban) 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn (yr Alban) 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau (yr Alban) 2016

**Pwrpas y diwygiadau**

Pwrpas y diwygiadau yw gwneud newidiadau technegol i'r ddeddfwriaeth gaffael bresennol i sicrhau bod ymrwymiadau caffael rhyngwladol yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ledled y DU. Mae hynny'n golygu rhoi grym i'r rhestr o endidau llywodraeth ganol yn Atodiad 1 i Atodlen I y Deyrnas Unedig i'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n esbonio effaith pob diwygiad, ar gael yma.

## Effeithiau’r OS ar gymwyseddau gweithredol Gweinidogion Cymru

Ni chaiff yr OS unrhyw effaith ar gymwyseddau gweithredol Gweinidogion Cymru.

## Effeithiau’r OS ar gymwyseddau gweithredol y Senedd

Ni chaiff yr OS unrhyw effaith ar gymwyseddau gweithredol y Senedd.

## Pam y cafodd caniatâd ei roi

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran polisi dros y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn golygu dyblygu gwaith a chymhlethdod diangen.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan yn yr achos hwn.